

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Heb eu Cadarnhau

**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Iechyd
a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2019****yn Ystafell y Mileniwm, Pencadlys y Bwrdd Iechyd, Baglan****Yn Bresennol:**

Emma Woollett	Cadeirydd
Martyn Waygood	Aelod Annibynnol
Reena Owen	Aelod Annibynnol
Jackie Davies	Aelod Annibynnol
Richard Evans	Cyfarwyddwr Meddygol
Gareth Howells	Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf
Chris White	Prif Swyddog Gweithredu/Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddor Iechyd
Hazel Robinson	Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Siân Harrop-Griffiths	Cyfarwyddwr Strategaeth
Tom Crick	Aelod Annibynnol
Lynne Hamilton	Cyfarwyddwr Cyllid
Sandra Husbands	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
Martin Sollis	Aelod Annibynnol
Malcolm Lewis	Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (o gofnod 11/07/19)
Julian Hopkin	Aelod Annibynnol
Mark Child	Aelod Annibynnol
Maggie Berry	Aelod Annibynnol (tan gofnod 11/07/19)

Yn Bresennol hefyd:

Pamela Wenger	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
Matt John	Prif Swyddog Gwybodaeth Dros Dro
Hannah Evans	Cyfarwyddwr Trawsnewid
Liz Stauber	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro
Freda Patel	Cyngor Iechyd Cymuned (tan gofnod 15/07/19)
Sue Evans	Cyngor Iechyd Cymuned (o gofnod 13/07/19)
Mwoyo Makoto	Cyngor Iechyd Cymuned (o gofnod 10/07/19)
Stephen Greenfield	Arweinydd Clinigol, Uned Mân Anafiadau (ar gyfer cofnod 18/07/19)

Rhif Cofnod	YMDDIHEIRIADAU	Gweithredu
01/07/19	Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Tracy Myhill, Prif Weithredwr; Alison James, Aelod Cyswllt o'r Bwrdd; Darren Griffiths, Aelod Cyswllt Perfformiad ac Emrys Davies, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.	
02/07/19	CROESO / SYLWADAU RHAGARWEINIOL	
	Roedd Emma Woollett wedi croesawu pawb i'r cyfarfod.	

03/07/19	DATGANIAD O DDIDDORDEB	
	Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.	
04/07/19	STORI CLAF: "RITA" – GWEITHGAREDDAU THERAPI RHYNGWEITHIOL HEL ATGOFION	
	Roedd y stori'n ymwneud â rhaglen beilot ar ward D yn Ysbyty Treforys ar gyfer cleifion â dementia, a roddodd ysgogiad cadarn a gweledol i helpu i alw cynefindra ac atgofion. Adroddwyd y stori gan ferch claf a fyddai'n cynhyrfu wrth gael ei dderbyn i'r ysbyty gan ei fod i ffwrdd o'i gartref a'i deulu. Ar ôl cael ei dderbyn, gofynnwyd i'w ferch lenwi ffurflenni am yr hyn roedd yn hoffi siarad amdano a'i fywyd er mwyn galluogi staff i ryngweithio ac ymgysylltu â'r claf. Cafodd hyn effaith mor gadarnhaol ac felly roedd y ferch yn gallu cysgu tra roedd ei thad ar y ward gan fod ei anghenion emosiynol a chorfforol yn cael eu diwallu, ac roedd y ffaith ei fod yn hapus i gael ei adael ar ei ben ei hun gyda'r nyrsys yn brawf o hyn. Wrth drafod stori'r claf, codwyd y pwyntiau canlynol: Nododd Gareth Howells y byddai llif gwaith dementia yn cael ei ailsefydlu a rhan o'r ffocws fyddai datblygu bwndel o ofal i gleifion â dementia sy'n cael eu derbyn i ward gyffredinol i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hateb, ond byddai hyn hefyd yn 'basbort' i'w cefnogi trwy unrhyw gyswllt o fewn y bwrdd iechyd. Ychwanegodd fod dementia yn aml yn cael ei ystyried yn broblem iechyd meddwl ond ei fod yn rhywbeth roedd pobl yn byw ag ef yn hytrach na bod yn sâl. Cytunodd Emma Woollett, gan ychwanegu bod yr urddas a roddir i gleifion yn flaenoriaeth ac roedd yn bwysig bod y bwrdd iechyd yn cael hyn yn iawn. Holodd Martyn Waygood y posibilrwydd o ehangu'r rhaglen. Dywedodd Gareth Howells mai un o'r elfennau allweddol oedd arwyddion a defnyddio arwyddion mawr ar gyfer mannau fel toiledau a oedd hefyd mewn lliwiau amrywiol fel y gallai cleifion gysylltu'r man â'r lliw. Roedd clociau hefyd yn ystyriaeth arall a defnyddio clociau â rhifau mawr nad oeddent yn rhifolion Rhufeinig. Byddai cais yn cael ei ddatblygu er mwyn i gronfeydd elusennol fwrw ymlaen â rhywfaint o'r gwaith hwn.	
Datryswyd:	Nodi stori'r claf.	
05/07/19	COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL	
	Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 a 30 Mai 2019 eu derbyn a'u cadarnhau fel cofnod cywir ac eithrio i nodi'r diwygiadau	

	canlynol: (i) <u>02/05/19 Ymddiheuriadau</u> Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb hefyd gan Emma Woollett, Hannah Evans, Maggie Berry a Chris White (y nodwyd ei fod yn bresennol). (ii) <u>21/05/19 Newid Ffin Pen-y-bont ar Ogwr</u> Ychwanegodd Matt <i>John</i> mai un o'r prif gytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer TG oedd y system gweinyddu cleifion na fyddai'n cael sylw tan 2021, ac y byddai'n bwysig cael hyd i'r cydbwysedd cywir rhwng cefnogi'r bwrdd iechyd a'r cytundeb lefel gwasanaeth. (iii) <u>29/05/19 (ii) Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch</u> Cafodd adroddiad sy'n amlinellu trafodaethau allweddol y Pwyllgor <i>Ansawdd a Diogelwch</i> o'i gyfarfodydd ym mis Ebrill 2019 ei dderbyn a'i nodi, gyda'r pwyntiau canlynol yn cael eu nodi fel rhan o'r drafodaeth.	
06/07/19	MATERION SY'N CODI	
	Ni chafwyd unrhyw faterion sy'n codi.	
07/07/19	COFNOD GWEITHREDU	
	Cafodd y cofnod gweithredu ei dderbyn a'i nodi .	
08/07/19	ADRODDIAD Y CADEIRYDD	
	Cafodd adroddiad y Cadeirydd ei dderbyn a'i nodi .	
09/07/19	ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR	
	Cafodd adroddiad y Prif Weithredwr ei dderbyn. Wrth gyflwyno'r adroddiad, roedd Chris White wedi tynnu sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd yr uwchgynhadledd arweinyddiaeth ddiweddaraf wedi cael ei chynnal yr wythnos flaenorol lle cafodd yr ymgyrch 'Gwireddu'n Gwerthoedd' ei lansio; - Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi cyrraedd y rhestr fer chwe gwaith yng Ngobrau GIG Cymru 2019. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol:	

	Dywedodd Hannah Evans fod strwythur y bwrdd iechyd ar ôl newid y ffin bellach yn cael ei ystyried a bydd y broses ymgysylltu ar draws y bwrdd yn dechrau'r wythnos ganlynol. Ychwanegodd fod sesiwn frifio wedi'i threfnu ar gyfer canol mis Medi i'r aelodau annibynnol. Dywedodd Siân Harrop-Griffiths fod y gwaith cynllunio ar gyfer Brexit (ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd) yn ailddechrau ym mis Medi 2019 ac y byddai diweddariadau'n cael eu darparu i'r bwrdd. Roedd Hazel Robinson wedi gwahodd aelodau o'r bwrdd i gymryd rhan yn yr ymgyrch 'Gwireddu'n Gwerthoedd' yn unigol ac fel grŵp. Nododd Martyn Waygood fod pleidlais staff ynghylch logo newydd elusen y bwrdd iechyd wedi ffafrio opsiwn dewisol a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r ymddiriedolwyr maes o law i'w gymeradwyo.	
Datryswyd:	Nodi'r adroddiad.	
10/07/19	ADRODDIAD PERFFORMIAD Y BWRDD IECHYD	
	Cafodd adroddiad perfformiad y bwrdd iechyd ei dderbyn. Wrth gyflwyno'r adroddiad, roedd Siân Harrop-Griffiths wedi dweud bod yr adroddiad wedi'i ddatblygu ymhellach i gynnwys gofal sylfaenol a gofal yn y gymuned, iechyd meddwl ac anableddau dysgu a mesurau iechyd y cyhoedd a chafwyd trafodaeth fanwl ynghylch perfformiad yn erbyn y metrigau yn y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid.	
Datryswyd:	Nodi'r adroddiad.	
11/07/19	ADRODDIADAU MATERION ALLWEDDOL	
	(i) <u>Pwyllgor Perfformiad a Chyllid</u> Cafodd adroddiad sy'n amlinellu trafodaethau allweddol Pwyllgor Perfformiad a Chyllid Mehefin a Gorffennaf 2019 ei dderbyn a'i nodi, a thrafodwyd y pwyntiau a ganlyn: Nododd Martin Sollis y gwelliannau a wnaed mewn gofal heb ei drefnu a holodd a oedd y rhain yn parhau i gael eu dangos. Dywedodd Chris White fod y lefelau risg yn parhau i fod yn is a bu gwelliant hefyd yn amserau trosglwyddo ambiwlans ond roedd angen mwy o newid yn y targedau aros pedair awr. Ychwanegodd ei fod yn cwrdd â'r cyfarwyddwyr gwasanaeth yn wythnosol i drafod yr heriau a'r hyn oedd yn cael ei wneud i'w datrys. Cyfeiriodd Reena Owen at y siartiau iechyd cyhoeddus a cheisiodd	

	eglurder ynghylch bodolaeth cynllun gweithredu i symud yr agenda iechyd ehangach yn ei blaen, megis gweithgaredd corfforol. Ymatebodd Sandra Husbands trwy ddweud bod yna gynllun i'w gyflawni trwy'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Ychwanegodd Chris White y byddai gwaith trawsnewidiol hefyd yn digwydd gyda'r clystyrau gofal sylfaenol. (ii) <u>Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch</u> Cafodd adroddiad sy'n amlinellu trafodaethau allweddol Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Mehefin 2019 ei dderbyn a'i nodi, a chafodd cylch gorchwyl diwygiedig y pwyllgor ei gymeradwyo, ar yr amod bod senedd glinigol yn cael ei hychwanegu fel is-grŵp. (iii) <u>Pwyllgor Gweithlu a Datblygu Sefydliadol</u> Cafodd adroddiad sy'n amlinellu trafodaethau allweddol Pwyllgor Gweithlu a Datblygu Sefydliadol Mai a Mehefin 2019 ei dderbyn a'i nodi, a thrafodwyd y pwynt canlynol: Dywedodd Hazel Robinson fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob bwrdd iechyd gyflwyno adroddiad yn amlinellu effaith bosibl newidiadau pensiwn Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. (iv) <u>Pwyllgor Iechyd a Diogelwch</u> Cafodd adroddiad sy'n amlinellu trafodaethau allweddol Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Mehefin 2019 ei dderbyn a'i nodi, a chafodd cylch gorchwyl diwygiedig y pwyllgor ei gymeradwyo.	
12/07/19	SEFYLLFA ARIANNOL	
	Cafodd adroddiad sy'n amlinellu'r sefyllfa ariannol bresennol ei dderbyn. Wrth gyflwyno'r adroddiad, roedd Lynne Hamilton wedi tynnu sylw at y pwyntiau canlynol: - Mae'r sefyllfa gyfalaf ar hyn o bryd yn adennill costau ac mae targed talu'r sector cyhoeddus yn cael ei gyrraedd; - Y sefyllfa ddiffyg yn ystod y mis oedd £1.5m a diffyg o £3.5m ar gyfer y chwarter cyntaf, gyda phwysau gweithredol a gwariant parhaus ar ofal iechyd yn cael eu nodi fel rhai o'r prif heriau; - Roedd heriau hefyd yn parhau mewn perthynas ag annarbodaeth maint Pen-y-bont ar Ogwr; - Roedd 100% o'r cynlluniau cynilo wedi'u nodi ac er bod cyflawniad wedi gwella, nid oedd lle roedd angen iddo fod; - Sefydlwyd tîm cymorth cyflawni a oedd yn blaenoriaethu'r gwaith o gyflawni'r cynllun adfer ariannol a pherfformiad a gofynnwyd i'r unedau a'r timau corfforaethol gyflwyno cynlluniau adennill costau erbyn 26 Gorffennaf 2019;	

	- Roedd trafodaeth fanwl i gael ei chynnal ym Mhwyllgor Perfformiad a Chyllid Awst 2019 ynghylch opsiynau'r cynllun adfer; - Roedd disgwyl i gymorth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ddechrau ym mis Medi 2019 ond heb gael canfyddiadau'r cyflafareddu hyd yn hyn. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Gofynnodd Julian Hopkin am y sefyllfa ynghylch gwariant locwm. Dywedodd Lynne Hamilton bod yna rai arbenigeddau y mae'n anodd recriwtio iddynt ac felly mae angen defnyddio locwm i lenwi bwlch. Fodd bynnag, y gweithlu meddygol yw un o'r cyfleoedd o werth uchel. Cytunodd Hazel Robinson, gan ychwanegu bod ystyriaeth yn cael ei rhoi ar sut i greu rolau mwy deniadol i annog mwy o glinigwyr i ymgeisio am swyddi. Dywedodd y byddai cyflwyno'r systemau e-restr ddyletswyddau a locwm ar ddyletswydd yn darparu proses gadarnach i staff dros dro. Dywedodd Gareth Howells y bu ymgyrch gadarnhaol i recriwtio nyrsys gyda Phrifysgol Abertawe ac mae 188 o nyrsys newydd gymhwyso i fod i ddechrau ym mis Medi 2019. Gofynnodd Julian Hopkin am eglurder o ran cael mewnwelediad i'r rhesymau pam mae staff yn gadael y bwrdd iechyd. Ymatebodd Gareth Howells fod trosiant oddeutu 1.8% ym maes nyrsio gan fod y rhan fwyaf o staff yn tueddu i aros, ond gofynnwyd i'r staff a ymadawodd ddod i gyfweiliad ymadael. Ychwanegodd Hazel Robinson fod hanner y staff a ymadawodd ar draws y bwrdd iechyd wedi gwneud hynny am resymau cysylltiedig ag oedran. Dywedodd Jackie Davies mai risg fwyaf y bwrdd iechyd o hyd yw'r gweithlu gan nad oes gan y swyddogaeth y capasiti i ateb anghenion cyfredol. Ymatebodd Lynne Hamilton fod y tîm gweithredol wedi cael trafodaeth fanwl y diwrnod blaenorol mewn perthynas â rheoli risg a bod hyn yn cyd-fynd â'r newidiadau strwythurol yn dilyn newid y ffin. Ychwanegodd fod angen treulio amser yn edrych ar yr holl swyddogaethau corfforaethol gan fod y gweithlu yn flaenoriaeth. Awgrymodd Emma Woollett y dylid cael y diweddaraf ynghylch capasiti'r gweithlu yng nghyfarfod nesaf y bwrdd o ystyried y risg sylweddol. Cytunwyd ar hyn.	HR
Datryswyd:	- Nodi'r adroddiad. - Cael y diweddaraf mewn perthynas â chapasiti'r gweithlu yn y cyfarfod nesaf.	HR
13/07/19	DATBLYGU CYNLLUN TYMOR CANOLIG INTEGREDIG (IMTP) A CHYNLLUN GWASANAETHAU CLINIGOL	

	Cafodd adroddiad sy'n manylu ar y gwaith o ddatblygu cynllun tymor canolig integredig (IMTP – cynllun tair blynedd) a chynllun gwasanaethau clinigol ei dderbyn. Wrth gyflwyno'r adroddiad, roedd Siân Harrop-Griffiths wedi tynnu sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd llwybr critigol lefel uchel a rhaglen gyfalaf yn cael eu datblygu ar gyfer y cynllun gwasanaethau clinigol; - Byddai'r IMTP yn ddull cyflawni allweddol ar gyfer y cynllun gwasanaethau clinigol; - Roedd ymgysylltiad clinigol da ar gyfer y cynllun gwasanaethau clinigol ac roedd nifer o ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal; - Cafodd amserlen ei sefydlu ar gyfer yr IMTP ynghyd â chynlluniau drafft systemau cyfan, gyda'r bwriad o ddod â'r gwaith blaenoriaethu yn ôl i'r bwrdd; - Byddai'n ofynnol i bob un o'r clystyrau gofal sylfaenol gyflwyno IMTP. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Cyfeiriodd Lynne Hamilton at y cymorth allanol a fyddai'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2019 ac a fyddai'n helpu gyda rhywfaint o'r gwaith IMTP o ran y fframwaith ariannol yn ogystal â chyfres o dybiaethau. Dywedodd Malcolm Lewis y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r cynlluniau clwstwr adlewyrchu'r rhaglen strategol gofal sylfaenol genedlaethol. Dywedodd Martin Sollis ei bod yn braf gweld y gwelliannau ond y byddai'n bwysig peidio â cholli'r amserlenni. Cytunodd Siân Harrop-Griffiths, gan ychwanegu nad oedd y broses gynllunio wedi dod i ben eleni ond yr hyn fu'n fuddiol iawn oedd ymgysylltiad a brwdfrydedd y rhai a gymerodd ran. Holodd Emma Woollet pa mor aml y byddai'r bwrdd iechyd yn cael y newyddion diweddaraf. Dywedodd Sian Harrop-Griffiths y byddai adroddiad ar gyfer pob cyfarfod am y chwe mis nesaf ond ystyrir cael grŵp bach hefyd i brofi datblygiadau. Nododd Martyn Waygood fod rhywfaint o waith i'w wneud o hyd mewn perthynas â 'gwneud i bob cyswllt gyfrif'. Ymatebodd Sian Harrop-Griffiths y byddai pum maes allweddol o ran atal ond byddai gan bob rhan o'r sefydliad ran i'w chwarae, ac roedd nodi wyth cam galluogi yn rhan o bob adolygiad perfformiad.	
Datryswyd:	- Nodi'r adroddiad. - Cefnogi'r camau nesaf.	

14/07/19	NEWID TREFN YR AGENDA	
Datryswyd:	Newid trefn yr agenda a chymryd eitemau 3.3 - 3.6 nesaf.	
15/07/19	ADRODDIAD AR BARTNERIAETHAU	
	Cafodd adroddiad sy'n rhoi'r diweddaraaf am bartneriaethau ei dderbyn. Wrth gyflwyno'r adroddiad, roedd Sian Harrop-Griffiths wedi tynnu sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd yn chwe mis ers i'r bwrdd gael diweddariad ac roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r awdurdodau lleol i gael mwy o atyniad; - Roedd Llywodraeth Cymru wedi galw am fwy o integreiddio trwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol gyda mwy o gyfalaf ac arian trawsnewid; - Cynhaliwyd adolygiad llywodraethu ar gyfer y byrddau gwasanaethau cyhoeddus a sut y gellid symleiddio trefniadau gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cadarnhawyd mai Emma Woollett yw Is-gadeirydd newydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Dywedodd Emma Woollett fod hwn yn adroddiad pwysig ac y byddai peth o'r gwaith yn hanfodol i ddatblygiad y bwrdd iechyd, ac felly roedd yn hollbwysig bod aelodau'n ymwybodol o'r gwaith parhaus. Ychwanegodd ei bod yn gweithio gyda Sian Harrop-Griffiths i benderfynu sut y gellid dod ag adroddiadau i'r bwrdd yn amlach. Dywedodd Reena Owen fod yr adroddiad, yn ei barn hi, yn galonogol gan mai arian cyhoeddus ydyw, ac felly dylai fod mwy o weithio cydgysylltiedig.	
Datryswyd:	- Nodi’r adroddiad. - Cytuno ar flaenoriaethau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg 2019-20. - Nodi newidiadau a'r rhaglen gyda phartneriaid strategol eraill.	
16/07/19	ADRODDIADAU MATERION ALLWEDDOL	

	(i) <u>Bwrdd Rhaglen ARCH</u> Cafodd adroddiad sy'n amlinellu trafodaethau allweddol o Fwrdd Rhaglen ARCH (Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd) ei dderbyn a'i nodi. (ii) <u>Cyd-bwyllgor Cynllunio a Chyflawni Rhanbarthol</u> Cafodd adroddiad sy'n amlinellu trafodaethau allweddol o'r Cyd-bwyllgor Cynllunio a Chyflawni Rhanbarthol ei dderbyn a'i nodi.	
	ADRODDIAD BLYNYDDOL GOFALWYR	
	Cafodd adroddiad blynyddol gofalwyr 2018-19 ei dderbyn a'i nodi .	
17/07/19	ADRODDIAD BLYNYDDOL YMCHWIL A DATBLYGU	
	Cafodd adroddiad blynyddol ymchwil a datblygu 2018-19 ei dderbyn. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Dywedodd Lynne Hamilton iddi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn i bartner busnes a chyllid Ysbyty Singleton gael ei gynnwys yn y grŵp gorchwyl a gorffen cenedlaethol. Gan fod fforwm dysgu gan y bwrdd iechyd erbyn hyn ar y cyd â Phrifysgol Abertawe, dywedodd Chris White y gallai fod yn fanteisiol i'r timau gweithredol yn y ddau sefydliad gwrdd i drafod buddion a chyfleoedd pellach. Cytunodd Emma Woollett ac awgrymu y dylid rhoi'r diweddaraf yn ystod cyfarfod mis Medi ynglŷn â'r cynllun gwaith ar gyfer cydweithredu rhwng y ddau sefydliad. Cytunwyd ar hyn.	RE
Datryswyd:	- Nodi'r adroddiad. - Cael y diweddaraf yn ystod cyfarfod mis Medi am y cyfleoedd cydweithredu rhwng y ddau sefydliad.	RE
18/07/19	UNED MÂN ANAFIADAU SINGLETON	
	Cafodd adroddiad sy'n rhoi'r diweddaraf am gau dros dro Uned Mân Anafiadau Singleton ei dderbyn. Wrth gyflwyno'r adroddiad, roedd Gareth Howells wedi tynnu sylw at y pwyntiau canlynol: - Cytunodd y bwrdd i gau'r Uned ar frys dros dro ym mis Tachwedd	

	2018 er mwyn ailwampio'r uned asesu; - Oherwydd colli staff, nid oedd y bwrdd iechyd mewn sefyllfa i'w hailagor yn ddiogel fel y cynlluniwyd, ac roedd wedi ceisio cytundeb gan y Cyngor Iechyd Cymuned i ymestyn y cau dros dro; - Rhoddwyd ystyriaeth i amrywiaeth o opsiynau ar gyfer dyfodol yr uned mewn partneriaeth â Chyngor Iechyd Cymuned a oedd hefyd yn ystyried 'drws ffrynt' yr ysbyty yn y dyfodol; - Er bod yr uned wedi cau, mae'r staff sy'n weddill wedi cael cyfle i weithio mewn ffyrdd eraill, er enghraifft yn yr uned meddygon teulu aciwt, neu yn adolygu'r galwadau ambiwlans i leihau trawsgludiadau dianghenraid i'r ysbyty. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Dywedodd Mwoyo Makoto fod yr achos a gyflwynwyd i'r Cyngor Iechyd Cymuned wedi nodi bod yna fantais i'r ffordd y mae'r adnoddau'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ond nid oedd yr achos a wnaed i gau'r uned yn ddigonol ac nid oedd yn glir bod opsiynau eraill wedi cael eu harchwilio. Ychwanegodd fod angen i'r broses ymgysylltu gynnwys trafodaethau gyda'r cyhoedd i benderfynu beth roeddent am eu cael ar gyfer yr uned gan nad oedd y broses eto mor dryloyw ag y dylai fod. Dywedodd Malcolm Lewis fod rôl y meddyg teulu yn yr uned a'r uned meddygon teulu aciwt yn wahanol ac felly ni fyddai mor hawdd trosglwyddo'r adnoddau pe bai'r Uned Mân Anafiadau yn cau. Dywedodd Jackie Davies y byddai gan y staff nyrsio sgiliau arbenigol a bod angen sicrwydd y byddent yn gallu parhau i weithio mewn maes a oedd yn defnyddio'r rhain yn briodol. Ymatebodd Gareth Howells fod staff, yn ystod y cau dros dro, wedi cael cyfle i weithio yn Uned Mân Anafiadau Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ond dewison nhw aros yn Ysbyty Singleton. Ychwanegodd mai opsiwn posibl ar gyfer Ysbyty Singleton oedd Uned Mân Anafiadau dan arweiniad nyrs. Dywedodd Mark Child, pan gytunodd y bwrdd ar y cau dros dro, fod nifer o aelodau wedi codi pryder ac wedi ceisio sicrwydd y byddai'n ailagor a bod y sicrwydd hynny wedi'i ddarparu. Nododd y cysylltwyd â'r Cyngor Iechyd Cymuned ym mis Mai 2019 ynghylch yr estyniad i'r cau ac felly roedd yn siomedig mai dim ond nawr roedd y bwrdd yn cael gwybod am hyn. Ymatebodd Chris White, er bod sicrwydd wedi ei ddarparu ym mis Tachwedd 2018, roedd hyn ar yr amod nad yw lefel yr adnoddau yn dirywio ymhellach ac ymddiheurodd i'r bwrdd am y diffyg gwybodaeth, gan ychwanegu y byddai gwersi yn cael eu dysgu. Dywedodd Stephen Greenfield fod lefelau staffio ar ôl cau'r uned yn isel ond yn ystod cyfnod y cau, roedd nifer y meddygon teulu wedi gostwng ymhellach. Ychwanegodd y ceisiwyd mynegiadau o ddiddordeb gydag ychydig yn cael eu cyflwyno ond roedd yn bwysig nodi bod nifer y	
--	--	--

	derbyniadau ambiwlans wedi gostwng 50% oherwydd roedd y meddygon teulu eraill yn adolygu'r galwadau. Dywedodd Reena Owen mai mater proffil uchel yw hwn a bod angen arfarnu ar yr opsiynau yn llawn gan ystyried barn y bwrdd, Cyngor Iechyd Cymuned a'r gymuned leol. Dywedodd Emma Woollett fod angen adroddiad pellach ym mis Medi 2019 sy'n amlinellu'r holl opsiynau posib ar gyfer yr uned yn y dyfodol, gan gynnwys ei chadw ar agor, yn ogystal â'r amserlen ar gyfer ymgysylltu. Ychwanegodd fod angen sicrwydd bod y Cyngor Iechyd Cymuned yn chwarae rhan lawn yn y broses. Ymatebodd Mwoyo Makoto drwy ddweud nad yw'r cyfnod ymgysylltu wedi'i gytuno eto gan fod y bwrdd iechyd yn aros am ragor o wybodaeth.	GH
Datryswyd:	- Nodi'r adroddiad. - Derbyn adroddiad pellach ym mis Medi 2019 sy'n amlinellu'r holl opsiynau posibl yn y dyfodol ar gyfer yr uned, gan gynnwys ei chadw ar agor, yn ogystal â'r amserlen ymgysylltu.	GH
19/07/19	GWASANAETH CLUDO CLEIFION MEWN ACHOSION NAD YDYNT YN RHAI BRYD	
	Cafodd adroddiad sy'n amlinellu cais i drosglwyddo trefniadau comisiynu ar gyfer gwasanaeth cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys (NEPTS) i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwylans Cymru (WAST) ei dderbyn. Wrth gyflwyno'r adroddiad, roedd Chris White wedi tynnu sylw at y pwyntiau canlynol: - Roedd y cynnig eisoes wedi'i ystyried gan y byrddau gweithredol; - Roedd y rhan fwyaf o'r risgiau y tynnwyd sylw atynt fel rhan o'r adolygiad o'r cynnig wedi cael eu lliniaru; - Roedd WAST wedi rhoi sicrwydd y byddai'r model gwasanaeth a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn parhau i fodoli; - Byddai cerbydau ychwanegol yn cael eu comisiynu ar gyfer Ysbyty Singleton; - Roedd rhai trafodaethau i'w cael o hyd ynghylch cyllid rheolaidd ar ôl y pum mlynedd cychwynnol.	
Datryswyd:	- Nodi'r adroddiad. - Cymeradwyo trosglwyddo'r trefniadau comisiynu ar gyfer NEPTS	CW

	i WAST ar 1 Medi 2019.	
20/07/19	CAEL GWARED AR GLINIGAU GLYN-NEDD A RESOLFEN	
	Cafodd adroddiad sy'n ceisio cymeradwyo cael gwared ar glinigau Glyn-nedd a Resolfen ei dderbyn. Wrth gyflwyno'r adroddiad, roedd Siân Harrop-Griffiths wedi tynnu sylw at y pwyntiau canlynol: - Disgwylir i ganolfan gofal sylfaenol newydd agor yng Nghwm Nedd ac felly cynigiwyd cael gwared ar yr hen gyfleusterau; - Awgrymwyd y dylid sefydlu panel i ystyried yr opsiynau ar gyfer gwaredu er mwyn sicrhau bod Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei hadlewyrchu yn y broses yn dilyn y trafodaethau ynghylch penderfyniad tebyg ar gyfer Ysbyty Fairwood y flwyddyn flaenorol. Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol: Dywedodd Mark Child y dylid cael gwared ar eiddo gyda'r canlyniad gorau i iechyd ond roedd yn cydnabod bod rhaid dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, ac felly roedd yn galonogol gweld y bwrdd iechyd yn ystyried y Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol. Dywedodd Reena Owen fod y cod ystadau yn ganllaw yn hytrach na gofyniad gorfodol ac felly mae'n bosibl cynnwys yn yr hysbyseb waredu yr angen i gynnwys buddion cymdeithasol. Dywedodd Siân Harrop-Griffiths fod cyngor yn cael ei geisio ynghylch hyblygrwydd y canllawiau ac, os oes angen, byddai cyngor cyfreithiol yn cael ei geisio cyn cwblhau'r hysbyseb i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r gofynion.	
Datryswyd:	- Nodi'r adroddiad. - Cyhoeddi nad oes angen Clinig Glyn-nedd na Chanolfan Iechyd Resolfen a'u bod ar gael i'w gwaredu ar y farchnad agored ac y dylid gosod sêl gyffredin y bwrdd iechyd ar y ddogfen drawsgludo. - Gofyn am ganllawiau ar warediadau am bris rhatach a bydd yr un meini prawf nawr yn cael eu cymhwyso i bob gwarediad yn y dyfodol ar y farchnad agored gan gynnwys Meddygfa Coelbren, y datganwyd eisoes nad oes ei hangen – i'w nodi.	
21/07/19	MATERION ALLWEDDOL	
	(i) <u>Pwyllgor Archwilio</u>	

	Cafodd adroddiad sy'n amlinellu trafodaethau allweddol Pwyllgorau Archwilio Mai 2019 ei dderbyn a'i nodi. (ii) <u>Pwyllgor Cronfeydd Elusennol</u> Cafodd adroddiad sy'n amlinellu trafodaethau allweddol Pwyllgorau Archwilio Mai 2019 ei dderbyn a'i nodi, a thrafodwyd y pwyntiau canlynol: Gofynnodd Chris White am eglurder ynghylch a fyddai'r rheolwr codi arian newydd yn cefnogi gwaith elusennol ehangach y bwrdd iechyd. Dywedodd Martyn Waygood mai un o'r tasgau cychwynnol oedd dod â'r holl waith o dan ei chylch gwaith hi a chodi proffil elusen y bwrdd iechyd. Ychwanegodd fod cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer yr un, dwy a phum mlynedd nesaf i gael pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chodi arian ar gyfer y gwasanaethau. Dywedodd Siân Harrop-Griffiths y bydd digwyddiad codi arian ar y cyd rhwng gwasanaeth canser de-orllewin Cymru a Felindre yn cael ei gynnal a bydd yr arian a godir yn cael ei rannu'n gyfartal.	
Datryswyd:	Nodi'r adroddiad.	
22/07/19	COFNODION CYD-BWYLLGORAU	
	(i) <u>Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru</u> Cafodd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru eu derbyn a'u nodi, a thrafodwyd y pwyntiau canlynol: Dywedodd Siân Harrop-Griffiths y byddai trafodaethau pellach yn ymwneud â'r gweithlu meddygol thorasig cyn y gellid dechrau'r gwaith o ganoli'r gwasanaeth yn Ysbyty Morriston ond mae cefnogaeth wedi bod ar gyfer ymgynghorydd ychwanegol a fyddai'n cael ei leoli yng Nghaerdydd ond a fyddai'n gweithio ar draws y rhanbarthau. Gofynnwyd i'r bwrdd iechyd ddarparu cefnogaeth ddiamod er mwyn i'r gwaith fynd yn ei flaen. Cytunwyd ar hyn. (ii) <u>Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP)</u> Cafodd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cydwasanaethau NWSSP Mai 2019 eu derbyn a'u nodi. (iii) <u>Cyd-fwrdd Pontio</u> Cafodd cofnodion cyfarfod Cyd-fwrdd Pontio Ebrill 2019 eu derbyn a'u nodi.	
23/07/19	MATERION ALLWEDDOL	

	(i) <u>Fforwm Partneriaeth Leol</u> Cafodd adroddiad sy'n amlinellu'r materion allweddol a drafodwyd gan y fforwm patneriaeth leol ym mis Gorffennaf 2019 eu derbyn a'u nodi, a thrafodwyd y pwyntiau canlynol: Dywedodd Jackie Davies fod yr undebau llafur yn parhau i bryderu am broses Cymru-gyfan pe bai cofrestriad nyrs yn dod i ben gan y byddai'r cyflog yn dod i ben nes mynd i'r afael â'r mater ac y gallai gymryd sawl wythnos neu fis i'w ddatrys. Dywedodd Gareth Howells fod angen rhywfaint o berchnogaeth ond bod penderfyniad wedi'i wneud yn lleol i ddefnyddio gwyliau blynyddol.	
24/07/19	MATERION A ADRODDWYD MEWN PWYLLGOR YN Y CYFARFOD BLAENOROL	
	Cafodd adroddiad sy'n amlinellu materion a adroddwyd mewn pwyllgor yng nghyfarfod Ionawr 2019 eu derbyn a'u nodi .	
25/07/19	MATERION LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL	
	Cafodd adroddiad sy'n amlinellu materion llywodraethu corfforaethol gan gynnwys cymhwyso'r sêl gyffredin, cyhoeddi cylchlythyrau iechyd Cymru a chylch busnes y bwrdd, ei dderbyn a'i nodi . Cafodd y polisi ar gyfer rheoli polisïau, prosesau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill ar draws y bwrdd iechyd ei gymeradwyo .	
26/07/19	UNRHYW FUSNES ARALL	
	(i) <u>Rhoi Organau</u> Dywedodd Jackie Davies mai wythnos gyntaf Medi 2019 yw wythnos rhoi organau ac y byddai stondin ar gael ar 4 Medi 2019 y gwahoddir aelodau o'r bwrdd i fod yn bresennol yno.	
27/07/19	DYDDIAD Y CYFARFOD BWRDD NESAF	
	Dyddiad y cyfarfod bwrdd nesaf yw 25 Medi 2019.	

.....

Emma Woollett (Cadeirydd Dros Dro)

.....

Dyddiad: